**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**—**
**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
**—**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus y Farwnes Heather Hallett DBE
Cadeirydd
Ymchwiliad i COVID-19 ledled y DU

10 Awst 2022

Annwyl Farwnes Hallett

Datganiad lansio a modiwlau cychwynnol yr Ymchwiliad COVID-19 ledled y DU

Ymhellach i gyhoeddi Datganiad lansio'r Ymchwiliad COVID-19 ledled y DU, rwy'n ysgrifennu ar ran Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Senedd Cymru i ofyn am ragor o eglurder ar y materion a amlinellir isod.

Mae llawer o'r materion sy'n ymwneud â pharodrwydd y DU am y pandemig COVID-19 a'i ymateb iddo wedi'u datganoli. Fel y nodwch yn y datganiad lansio, mae hyn yn golygu ystyried ac adrodd ar y paratoadau a'r ymateb i'r pandemig ar draws y pedair gwlad yn ogystal â'r DU gyfan. Yn fy llythyr dyddiedig 1 Ebrill 2022, fe amlinellais farn y Pwyllgor sef, er mwyn cyflawni hyn, y bydd angen i'r Ymchwiliad fod ag arbenigedd a chyngor mewn perthynas â threfniadau a chyd-destun cyfreithiol, cyd-destun polisi a'r cyd-destun llywodraethu penodol yng Nghymru ymhlith ei aelodau -neu gael mynediad at yr arbenigedd mewn ffordd arall. I'r perwyl hwn, rydym yn croesawu'r arwydd yn y datganiad lansio eich bod yn bwriadu comisiynu gwaith ymchwil a gofyn am gyngor arbenigol i ategu gwaith ymchwil a thystiolaeth bresennol lle bo angen. Rydym hefyd yn nodi eich bod yn disgwyl penodi dau aelod ychwanegol ar y panel, i'ch cynorthwyo i glywed tystiolaeth a gwneud canfyddiadau ac argymhellion.

Nodwn fod pob un o'r tri modiwl cychwynnol a gyhoeddwyd yn y datganiad lansio yn adlewyrchu datganoli mewn gwahanol ffyrdd: mae modiwl un yn cynnwys ystyriaeth o strwythurau a chyrff datganoledig o fewn un o bwyntiau ei gylch gorchwyl manwl; mae modiwl dau yn cynnwys is-fodiwlau pwrpasol sy'n canolbwyntio ar bob un o'r cenhedloedd datganoledig; ac nid yw modiwl tri, hyd yma, yn nodi sut y bydd yn ystyried datganoli a'r gwahanol systemau iechyd a threfniadau sydd ar waith ym mhob gwlad.

1. Byddem yn croesawu cael rhagor o wybodaeth am sut mae modiwlau'r Ymchwiliad — p'un a ydynt yn cynnwys is-fodiwlau cenedl-benodol ai peidio — yn cynnwys ffocws digonol ar y cyd-destun a'r trefniadau penodol o fewn pob gwlad yn annibynnol, yn ogystal â'r darlun ehangach ar draws y DU.

Rydym yn croesawu eich cynlluniau i gynnal gwaith gwrando anffurfiol ochr yn ochr â chasglu tystiolaeth ffurfiol, a'ch bwriad y dylai hyn gynnwys elfennau ar-lein a sgyrsiau ar draws y DU.

2. Byddem yn croesawu cael cadarnhad y bydd hyn yn cynnwys cyfleoedd i bobl a chymunedau ar draws gwahanol rannau o Gymru ymgysylltu â'r Ymchwiliad wyneb yn wyneb neu ar-lein yn ôl eu dewis, ac i gyfrannu at ei waith, i ddarparu tystiolaeth ac i rannu eu profiadau yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

cc Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS, Prif Weinidog, Llywodraeth Cymru

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

Senedd Cymru
Welsh Parliament